**EITEM AR YR AGENDA: 14**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**16eg Mehefin 2008**

**COD YMDDYGIAD**

**Adroddiad gan Colin Everett,**
**Clerc i'r Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

**1.** I gyflwyno cod ymddygiad enghreifftiol newydd i aelodau ac aelodau cyfetholedig o'r Awdurdod a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar 21 Ebrill 2008 ac i edrych i'w fabwysiadu i gymryd lle'r cod ymddygiad blaenorol.

## Cefndir

**2.** Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi pasio Gorchymyn, sef (Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008 - SI 2008 Rhif. 788) yn dilyn ymgynghoriad gyda Cynghorau Sirol/Bwrdeistref Sirol, Awdurdodau Tân ac Achub, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, Cynghorau Tref a Chymuned a chyrff eraill, i gyflwyno cod ymddygiad enghreifftiol newydd i aelodau ac aelodau cyfetholedig yr awdurdodau hynny, i gymryd lle'r cod enghreifftiol blaenorol gyflwynwyd yn 2001. Cyhoeddwyd cylchlythyr i'r holl awdurdodau perthnasol ar 21 Ebrill gan Isadran Polisi Llywodraeth Leol Llywodraeth Cynulliad Cymru gyda'r cod enghreifftiol newydd.

**Cefndir** *(parhad)*

**3.** Rhaid i'r holl awdurdodau perthnasol basio penderfyniad i fabwysiadu'r cod enghreifftiol newydd cyn 20 Medi 2008, i sicrhau fod copïau o'r cod ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio, i gyhoeddi mewn un neu fwy o bapurau newydd yn ardal weithredol yr awdurdod fod y cod wedi ei fabwysiadu ac i anfon copi o'r cod a'r penderfyniad ymlaen i swyddfa'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus.

**Gwybodaeth**

**4.** Mae'r cod ymddygiad enghreifftiol newydd ynghlwm.

**5.** Rhaid i'r holl aelodau, a'r aelodau cyfetholedig arwyddo datganiad i gydymffurfio â'r cod newydd ar ôl iddo gael ei fabwysiadu gan yr awdurdod. Mae'r cod newydd hefyd yn gofyn cynnal Cofrestr o Ddiddordebau Aelodau. Yn unol â hyn, o fewn 28 diwrnod o fabwysiadu'r cod gan yr Awdurdod, neu o fewn 28 diwrnod o ethol neu benodi aelodau, rhaid i aelodau gofrestru eu diddordebau ariannol a diddordebau eraill yn y gofrestr fydd yn cael ei gynnal gan y Swyddog Monitro. Hefyd, rhaid i aelodau gofrestru yn ysgrifenedig unrhyw ddiddordebau personol newydd, neu newidiadau i ddiddordebau a gofrestrwyd eisoes, o fewn 28 diwrnod o ddatgan y diddordeb neu ei newid i'r Swyddog Monitro. Mae'r cod yn gofyn hysbysu'r Swyddog Monitro yn ysgrifenedig o unrhyw roddion, lletygarwch a buddion materol neu fanteision eraill a dderbyniwyd, dros drothwy a ganiateir i'r Awdurdod ei hunan osod, o fewn 28 diwrnod o'u derbyn. Argymhellir i'r trothwy ar gyfer gofrestru fod yn £25. Unwaith i'r cod newydd gael ei fabwysiadu, ni fydd aelodau yn gallu gweithredu fel aelodau o'r Awdurdod (e.e. gwneud penderfyniadau na chynrychioli) nes iddynt arwyddo eu datganiad i gydymffurfio. Bydd y Clerc yn cyflwyno'r cod newydd yn y cyfarfod ac yn gwahodd cwestiynau i sicrhau fod yr holl aelodau yn gyfarwydd gyda'r cod newydd.

**Argymhelliad**

**6.** Fod yr Awdurdod:

**6.1** yn mabwysiadu'r cod ymddygiad newydd i aelodau ac aelodau cyfetholedig ac i'r holl aelodau arwyddo datganiad yn dweud y byddant yn cydymffurfio â'r cod newydd; ac

**6.2** fod y trothwy ar gyfer cofrestru unrhyw roddion, lletygarwch a buddion materol neu fanteision eraill yn cael ei osod ar £25.